Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

# Dirnad Economi Cymru

## *Adroddiad chwarterol*

**Mai 2026**

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ysgol Busnes Bangor
Bangor Business School

ERC
Enterprise Research Centre

Banc

# Contents


**Crynodeb** 3

**1. Cyflwyniad** 5

**2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol** 6

**3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru:** 14
Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid

**4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid** 22

**5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru** 27

**6. Casgliadau** 32

**Atodiad 1** 33

**Atodiad 2** 34



Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk


I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*


Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.



Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ArhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

# Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ochr yn ochr â chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru **yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2025/26.** Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Ar ddiwedd mis Chwefror 2026, dechreuodd gwrthdaro arfog rhwng lluoedd cyfunol Unol Daleithiau America ac Israel, yn erbyn Iran. Un o'r effeithiau uniongyrchol ar yr economi fyd-eang oedd cynnydd mewn prisiau ynni yn sgil yr aflonyddu ar gyflenwad. Oherwydd oedi rhwng casglu a chyhoeddi data, mae llawer o'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod cyn y gwrthdaro.

## Amodau economaidd

**Diwygiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yr amcanestyniad o'r twf byd-eang ar gyfer 2026 tuag i fyny 0.2 pwynt canran i 3.3%.** Arhosodd yr amcanestyniad ar gyfer 2027 yn 3.2% oherwydd mwy o anwadalrwydd ac ansicrwydd yn y farchnad fyd-eang.

Dangosodd data gan y SYG fod **chwyddiant** Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) dros ddeuddeg mis **yn y DU yn 3.0% ym mis Chwefror 2026, heb newid o'r deuddeg mis hyd at fis Ionawr 2026.** Daeth y cyfraniadau mwyaf tuag i fyny at gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD o ddillad ac esgidiau, nwyddau a gwasanaethau amrywiol, a dodrefn a nwyddau cartref. Y cyfraniadau mwyaf tuag i lawr, yn gwrthbwyso, oedd alcohol a thybaco, a thrafnidiaeth.

Ym mis Mawrth 2026, pleidleisiodd Banc Lloegr o blaid cadw'r Gyfradd Banc yn 3.75% yn dilyn yr ansicrwydd sy'n deillio o'r gwrthdaro yn Iran.

Yn **y tri mis hyd at fis Ionawr 2026,** amcangyfrifwyd bod **cynnyrch domestig gros (CDG) y DU wedi cynyddu 0.3%.** Sbardunwyd hyn yn bennaf gan gynnydd yn y sector cynhyrchu o fewn y sector gweithgynhyrchu (i fyny 1.5%) a chyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru (i fyny 2.2%).

Yn y cyfnod o fis Rhagfyr 2025 i fis Chwefror 2026, roedd **cyfanswm swyddi gwag yn y DU i lawr 76,000** o'r lefel flwyddyn yn ôl. Dengys amcangyfrifon gan PAYE ostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ar gyfer mis Chwefror 2026 i 30.3m, sef 49,000 yn llai o weithwyr cyflogedig o gymharu â mis Chwefror 2025. **Yng Nghymru, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogres 2,500 i 1.31m yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2026.**

**Cyfradd anweithgarwch economaidd y DU oedd 21.1%** yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2025. **Yng Nghymru** y ffigur cymharol oedd **24.1%.** Er bod hyn yn ostyngiad ledled y DU a Chymru, mae anweithgarwch economaidd yn parhau i gyfyngu'n sylweddol ar dwf economaidd.

Roedd ffigurau diwygiedig ar gyfer sector adeiladu Cymru yn dangos **trydydd chwarter yn olynol o ddirywiad yn Ch3 2025.** Arhosodd **mynegai adeiladu Cymru** 23.0% yn is na lefel Cymru 2023 yn Ch3 2025, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU yn cyrraedd 2.3% yn uwch na lefelau 2023.

**Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 1.4% i £19.16bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025.** Bydd hyn, ynghyd â chynnal niferoedd yn y cyfrif allforwyr dros yr un cyfnod, yn helpu i effeithio'n gadarnhaol ar gynhyrchiant a gweithgarwch economaidd.

**Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2026 oedd 0.9% ym mis Mawrth 2026.** Roedd hyn yn ostyngiad o 0.2 pwynt canran o'r rhagolwg newydd cyfartalog a wnaed ym mis Chwefror 2026.

# Crynodeb

## Newid mewn amodau economaidd yn llywio'r galw am gyllid

Yn ôl Mynegai Busnesau Bach y DU y Ffederasiwn Busnesau Bach, **syrthiodd hyder busnesau ymhellach yn Ch4 2025 i -70.6,** sef isafbwynt newydd ar ôl y pandemig, a'r economi yn parhau i fod y prif bryder i fusnesau bach a chanolig. **Roedd hyder busnesau bach a chanolig Cymru yn -58.8 yn ystod Ch4 2025.**

Adroddodd y Monitor Cyllid BBaChau fod **28% o BBaChau y DU** (ac eithrio rhai sy'n cychwyn) **wedi tyfu dros y 12 mis diwethaf yn ystod Ch4 2025,** yn uwch na'r lefel a grybwyllwyd yn y chwarter blaenorol.

**Roedd nifer y genedigaethau busnes, a gofnodwyd fel cofrestriadau TAW/PAYE newydd, yng Nghymru yn fwy na nifer y marwolaethau busnes yn ystod Ch4 2025.** Cyfanswm y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch4 2025 oedd 2,405, tra bod nifer y marwolaethau busnesau yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,225.

Yn ôl Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 31 Ionawr 2026 (ton 150) **roedd 39.4% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod** (37.0% yn y DU).

Dangosodd data SYG fod **prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 2.0% yn y 12 mis hyd at fis Ionawr 2026,** a phris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Ionawr 2026 oedd £210,186.

**Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu** S&P Global UK **44.5 mewn gweithgarwch adeiladu cyffredinol ym mis Chwefror 2026,** a hynny islaw'r marc o 50 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachu.

## Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd i fusnesau bach wedi cynyddu ac wedi cynyddu ychydig ar gyfer busnesau canolig a mawr** yn ystod Ch4 2025. Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr **nad oedd y galw am fenthyca gan fusnesau bach, canolig a mawr wedi newid yn ystod Ch4 2025.**

Adroddodd UK Finance fod **benthyciadau gros i gwmnïau bach yn 2025 wedi cynyddu chwarter o gymharu â 2024,** tra bod benthyca i fusnesau canolig wedi cynyddu 4%.

Roedd **66% o BBaCh Cymru** yn defnyddio **rhyw fath o gyllid allanol** yn ystod **Ch4 2025.** Cardiau credyd o hyd oedd y math mwyaf cyffredin o gyllid busnes a ddefnyddir gan BBaChau yng Nghymru.

Y **gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i BBaChau oedd 6.26% ym mis Chwefror 2026,** i fyny o 6.14% ym mis Ionawr 2026.

## Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Yn Ch3 2025/26, **cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 139 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm gwerth o £43.5m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â thros 1,100 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.**

Roedd y **sector adeiladu yn dominyddu gweithgarwch buddsoddi** yn Ch3 2025/26, gan gyfrif am draean o'r buddsoddiadau yn ôl gwerth (£14.6m).

Roedd y **nifer uchaf o swyddi** a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn y **sector gwasanaethau llety a bwyd** (209 o swyddi). Sicrhaodd busnesau yn y sector hwn fuddsoddiad o £5.4m yn ystod y cyfnod hwn.

# Crynodeb

## Casgliadau

Mae ymdrechion Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ar ddod â chwyddiant dan reolaeth, ond bydd y gwrthdaro presennol yn arwain at brisiau uwch a'r posibilrwydd, ar y gorau, o beidio â thorri cyfraddau ymhellach eleni.

Mae'r gwrthdaro unwaith eto wedi amlygu dibyniaeth y DU ar hydrocarbonau wedi'u mewnforio a'r cysylltiadau cymhleth rhwng prisiau olew a nwy, bwyd a gweithgynhyrchu. Yn anochel, bydd ansicrwydd ynghylch prisiau yn cael effeithiau dilynol ar hyder busnes a phenderfyniadau buddsoddi trwy weddill 2026.

I Gymru, mae effeithiau argyfwng y Dwyrain Canol yn fwy difrifol byth yn sgil lefelau uchel o dlodi tanwydd, nifer gymharol uchel o aelwydydd sy'n dibynnu ar olew gwresogi y mae ei bris wedi cynyddu'n sylweddol, a mwy o ddibyniaeth ar amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu y mae eu cynnyrch wedi'i gysylltu'n agosach â phrisiau olew.

Yn yr amgylchiadau economaidd mwy heriol presennol, bydd y Banc Datblygu yn parhau i chwarae rhan hanfodol i Gymru o ran darparu cyllid benthyciadau ac ecwiti i fusnesau lleol sy'n wynebu lefelau uwch o ansicrwydd buddsoddi.

# Cyflwyniad



Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad BBaChau yng Nghymru, ochr yn ochr â chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Yn adrannau 2-4 yr adroddiad hwn, darperir y cyd-destun macroeconomaidd y mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn gweithredu ynddo, ac archwilir ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid BBaCh, ei gyflenwad a'i gost. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Mae'r adran olaf yn darparu rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

I raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (sy'n destun adroddiad fesul blwyddyn calendr yn gyffredinol), ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (sy'n destun adroddiad fesul blwyddyn ariannol yn bennaf). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd ychydig bach o anghysondeb amser yn y data yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio'r adroddiad hwn ar 9 Ebrill 2026.

**Yn ddiweddar, cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru yr adroddiadau canlynol:**

- Buddsoddiad cynhyrchiol yng Nghymru: beth sy'n llywio penderfyniadau buddsoddi?[1]
- Technoleg ariannol, bancio perthynas a benthyca i BBaChau.[2]
- Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru - ar y cyd â Banc Busnes Prydain.[3]

**Mae cyfres o gyhoeddiadau ar y gweill yn ystod 2026 gan gynnwys adroddiadau ar y canlynol:**

- Llywodraethu a chyllido mentrau a arweinir gan y gymuned yng Nghymru.
- Rôl 'arwyr cynhyrchiant' yn economi Cymru: eu cyfraniad at dwf a chynhyrchiant.
- Strategaethau cynllunio olyniaeth perchnogaeth busnesau bach.
- Deall cyfleoedd y diwydiant amddiffyn yng Nghymru: sut allwn ni gefnogi busnesau Cymru yn well?

[1] Penderfyniadau buddsoddi cynhyrchiol mewn cwmnïau Cymreig - Banc Datblygu
[2] Technoleg ariannol, bancio perthynas a benthyca i BBaChau - Banc Datblygu
[3] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2024-05/J0425_BBB_Wales_Report_WE_AW.pdf

- Ar ddiwedd mis Chwefror 2026, dechreuodd gwrthdaro arfog rhwng lluoedd cyfunol Unol Daleithiau America ac Israel, yn erbyn Iran. Prisiau ynni cynyddol, oherwydd tarfu ar gyflenwad, oedd un o'r effeithiau uniongyrchol ar yr economi fyd-eang. Gyda'r gwahaniaeth amser rhwng casglu a chyhoeddi gwybodaeth, mae llawer o'r data yn yr adran hon o'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod cyn y gwrthdaro.
- Cafodd rhagolwg twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2026 (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026) ei uwchraddio 0.2 pwynt canran i 3.3%, tra bod amcanestyniad 2027 yn aros yn 3.2%.
- Gan nodi ystod o bosibiliadau a allai godi o'r gwrthdaro yn Iran, pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr o blaid cadw'r Gyfradd Banc yn 3.75% ym mis Mawrth 2026.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 3.0% ym mis Chwefror 2026, heb newid o fis Ionawr 2026.

## Rhagolygon byd-eang

Cyn i'r gwrthdaro yn Iran ddechrau ddiwedd Chwefror 2026, nododd Diweddariad Rhagolwg Economaidd y Byd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)[4] (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026) fod cydbwyso "grymoedd croes i'w gilydd" wedi arwain at gynnydd cyson i'r economi fyd-eang. Gwelwyd bod effeithiau negyddol tensiynau masnach, megis y rhwystrau tariff a gyflwynwyd gan Unol Daleithiau America, yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd mewn buddsoddiad mewn technoleg (yn enwedig yn Asia a Gogledd America). Rhagwelodd yr IMF dwf byd-eang ar 3.3% yn 2026 a 3.2% yn 2027. Roedd yr amcanestyniad newydd ar gyfer 2026 yn 0.2 pwynt canran yn uwch na'r hyn a nodwyd yn Rhagolwg Economaidd y Byd Hydref 2025,[5] tra bod rhagolwg 2027 ar gyfer twf y byd yn aros yr un fath yn y ddau gyfnod. Nododd yr IMF mai'r risgiau dirywio allweddol oedd "ail-werthuso disgwyliadau technoleg a chynyddu tensiynau geo-wleidyddol".

Yn yr Unol Daleithiau, mae'r IMF wedi rhagweld 2.4% o dwf yn 2026, sef diwygiad tuag i fyny o 0.3 pwynt canran, ac yn disgwyl i dwf ostwng i 2.0% yn 2027. Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro ar gyfer twf o 1.3% yn 2026 ac 1.4% yn 2027. Yn y DU, mae amcanestyniad twf yr IMF ar gyfer 1.3% yn 2026 ac 1.5% yn 2027.

Ar adeg ysgrifennu, mae'r effaith economaidd lawn o ganlyniad i'r rhyfel yn Iran yn dal i gael ei datgelu, ond roedd cynnydd byd-eang ym mhris eitemau gan gynnwys ynni (yn enwedig petrol a disel), gwrtaith a morgludiant (gyda phremiymau yswiriant uwch) yn deillio o'r gwrthdaro ac yn enwedig cau'r prif lwybr masnach morgludiant trwy Gulfor Hormuz, gan rwystro'r cyflenwad.

[4] https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2026/01/19/world-economic-outlook-update-january-2026
[5] https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2025/10/14/world-economic-outlook-october-2025

# Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol



## Datganiad Gwanwyn Canghellor y DU

lYn Natganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth 2026, amlygodd Canghellor Trysorlys y DU ragolygon twf diwygiedig ar gyfer economi'r DU gan gorff gwarchod y Trysorlys, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Israddiwyd rhagolwg twf y DU ar gyfer 2026 i 1.1% (gostyngiad o 0.3 pwynt canran o'r rhagolwg ym mis Tachwedd), tra bod disgwyl i CDG dyfu 1.6% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2027 a 2030.[6]

Roedd y dadansoddiad hefyd yn rhagweld y byddai'r targed chwyddiant o 2% ar gyfer economi'r DU yn cael ei gyflawni yn 2026, ac yn rhagweld y byddai diweithdra'r DU yn cynyddu i 5.3% yn 2026, cyn gostwng i 4.1% erbyn 2030. Fodd bynnag, nid oedd y rhagolygon yn ymgorffori unrhyw effeithiau posibl o'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol.[7]

## Pwysau chwyddiant y DU

Mae'r gwrthdaro yn Iran wedi creu ansicrwydd yng nghyfeiriad llwybr chwyddiant y DU. Dylid nodi bod y ffigurau canlynol wedi'u casglu gan y SYG cyn i'r rhyfel yn Iran ddechrau tarfu ar farchnadoedd ynni. Yn ôl y SYG, roedd chwyddiant MPD deuddeg mis yn y DU yn 3.0% ym mis Chwefror 2026, cyfradd sydd heb newid o'r deuddeg mis hyd at fis Ionawr 2026.[8] Daeth y cyfraniadau mwyaf tuag i fyny at gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD o ddillad ac esgidiau, nwyddau a gwasanaethau amrywiol, a dodrefn a nwyddau cartref. Y cyfraniadau mwyaf tuag i lawr, yn gwrthbwyso, oedd alcohol a thybaco, a thrafnidiaeth.

Gellir dadlau bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd yn ddangosydd gwell o ba raddau y gall chwyddiant fod wedi'i ymgorffori yn yr economi o hyd gan ei fod yn eithrio elfennau anwadal o'r MPD fel prisiau ynni a bwyd. Cynyddodd MPD craidd 3.2% yn y deuddeg mis hyd at fis Chwefror 2026, tra bod y ffigur cymharol yn y deuddeg mis hyd at fis Ionawr 2026 yn 3.1%.[9]

Yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2026, cynyddodd cyfradd flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât y ffatri) 1.7%, i lawr o gynnydd o 2.5% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2026.[10]

Daeth y cyfraniadau mwyaf tuag i fyny at y gyfradd chwyddiant allbwn flynyddol ym mis Chwefror 2026 o allbynnau cynhyrchion bwyd (lle cododd prisiau 2.4%, o gymharu â chynnydd diwygiedig o 3.2% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2026), ac allbynnau eraill o weithgynhyrchu (lle cynyddodd prisiau 2.7% yn y flwyddyn hyd at Chwefror 2026, i lawr o 2.9% diwygiedig yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2026).

Roedd y cyfraniad mwyaf tuag i lawr at gyfradd chwyddiant allbwn flynyddol yn deillio o'r grŵp cynnyrch golosg a phetrolewm puredig. Yma gostyngodd prisiau 8.6% yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2026, gan leihau o ostyngiad diwygiedig o 7.7% ym mis Ionawr.

[6] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/69a6d7b62e1f4fbda4252208/economic-and-fiscal-outlook-march-2026-web-accessible.pdf
[7] https://www.bbc.co.uk/news/live/cwy81d7y9zgt
[8] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/february2026
[9] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/february2026#latest-movements-in-cpih-inflation
[10] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/february2026

## Banc Lloegr yn cadw'r Gyfradd Banc yn sefydlog ym mis Mawrth 2026

Ym mis Mawrth 2026, cadwodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc ar 3.75%, gyda Llywodraethwr y Banc yn nodi, yn ôl yr hyn a adroddwyd, gyda phrisiau ynni eisoes yn cael eu gwthio i fyny "... na all polisi ariannol wrthdroi'r sioc hon i'r cyflenwad. Mae ei ddatrys yn dibynnu ar weithredu yn ei ffynhonnell i ddod â theithio diogel i longau trwy Gulfor Hormuz yn ôl...".[11] Nododd y Crynodeb Polisi Ariannol ar gyfer mis Mawrth fod polisi ariannol, cyn y sioc, wedi cael ei ystyried yn eithaf cyfyngol ond wedyn bod amrywiaeth o bosibiliadau a oedd yn dibynnu ar wahanol ddatblygiadau yn y gwrthdaro yn Iran - pe byddai'r sioc yn fyr neu lacrwydd economaidd yn cynyddu, gan leihau pwysau chwyddiant, byddai safiad polisi llai cyfyngol yn briodol, tra byddai sioc faith, fwy o faint gydag effeithiau cyflog a phrisiau cryfach yn mynnu polisi tynnach.[12]

## Mae CDG y DU yn cynyddu ychydig yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026

O gymharu â'r tri mis hyd at fis Hydref 2025, amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (CDG) real y DU wedi cynyddu 0.3% yn y tri mis hyd at Ionawr 2026.[13]

Yn ôl sector, tyfodd allbwn mewn gwasanaethau yn y DU 0.2% yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026, a hyn yn dilyn dim twf ym mhob un o'r tri mis hyd at fis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2025.[14] Y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf at allbwn gwasanaethau yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026 oedd masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (i fyny 1.0%), gwybodaeth a chyfathrebu (i fyny 0.8%) a chludiant a storio (i fyny 1.1%). Y cyfranwyr negyddol mwyaf at allbwn mewn gwasanaethau oedd gweithgareddau eiddo tiriog (i lawr 0.2%), gwasanaethau llety a bwyd (i lawr 0.7%) oherwydd gostyngiad o 2.9% mewn llety, a'r celfyddydau, adloniant a hamdden (i lawr 1.1%).

Yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026, amcangyfrifir bod allbwn yn sector cynhyrchu'r DU wedi tyfu 1.3% o gymharu â'r tri mis hyd at fis Hydref 2025. Y prif rai a gyfrannodd at y cynnydd hwn oedd y sector gweithgynhyrchu (i fyny 1.5%) a chyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru (i fyny 2.2%). O fewn y sector gweithgynhyrchu, y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026 oedd gweithgynhyrchu offer trafnidiaeth (i fyny 8.1%), gweithgynhyrchu a masnach arall (i fyny 4.7%) a gweithgynhyrchu cyfrifiaduron, cynhyrchion electronig ac optegol (i fyny 2.4%). Y cyfranwyr negyddol mwyaf yn y sector gweithgynhyrchu oedd gweithgynhyrchu cemegau a chynhyrchion cemegol (i lawr 4.0%), gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a thybaco (i lawr 0.9%), a gweithgynhyrchu cynhyrchion pren a phapur, ac argraffu (i lawr 1.9%).

Yn y sector cynhyrchu yn ei gyfanrwydd, yn y tri mis hyd at fis Ionawr 2026, cafodd twf ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiadau o 0.5% yn y cyflenwad dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli ac adfer gwastraff, ynghyd â 0.1% mewn mwyngloddio a chwarela.

Mae amcangyfrifon CDG misol yn datgelu nad oedd twf yn y mis hyd at fis Ionawr 2026. Roedd hyn yn dilyn twf o 0.1% ym mis Rhagfyr 2025 a 0.2% ym mis Tachwedd 2025.

[11] https://www.bbc.co.uk/news/live/cm2r295p8p9t
[12] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2026/march-2026
[13] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/february2026
[14] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/january2026
[15] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/octobertodecember2025revisedresults

## Gostyngodd buddsoddiad busnes y DU yn Ch4 2025

Yn Ch4 2025 (Hydref i Ragfyr) gostyngodd buddsoddiad busnes y DU 2.5%, wedi'i ddiwygio i fyny o ostyngiad o 2.7% yn yr amcangyfrif dros dro, yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y SYG.[15] Y cyfranwyr mwyaf at y gostyngiad mewn buddsoddiad busnes ym mis Hydref i fis Rhagfyr 2025 oedd trafnidiaeth, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a pheiriannau ac offer eraill. Roedd y ffigur diwygiedig 2.0% yn uwch na'r lefel yn Ch4 2024, ond roedd yr adfywiad mewn gwariant cyfalaf yn parhau i fod yn anghyson ar draws sectorau.

## Nifer y swyddi gwag yn y DU yn parhau i ostwng

Dros y misoedd diwethaf mae'r gostyngiad mewn swyddi gwag yn y DU wedi'i gysylltu â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025, gan ychwanegu at gostau cynyddol i gyflogwyr, a rhwystrau cysylltiedig rhag recriwtio.[16] Yr amcangyfrif cynnar o nifer y swyddi gwag yn y DU yn y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026 oedd 721,000 – sef gostyngiad o 6,000 o'r chwarter blaenorol (mis Medi i fis Tachwedd 2025).[17]

Yn y cyfnod o fis Rhagfyr 2025 i fis Chwefror 2026 roedd cyfanswm y swyddi gwag wedi gostwng 76,000 (9.5%) o lefel y flwyddyn flaenorol ac roeddent 74,000 (9.3%) yn is na'u lefel cyn pandemig COVID-19 rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Roedd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn swyddi gwag ym mis Rhagfyr 2025 i fis Chwefror 2026 o'r chwarter blaenorol mewn gweithgareddau cyflenwi dŵr, carthffosiaeth, gwastraff ac adfer (i lawr 11.4%), ac adeiladu (gostyngiad o 10.6%).

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill[18] yn datgelu gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ar gyfer mis Chwefror 2026 i 30.3 miliwn, sef gostyngiad o 49,000 o weithwyr cyflogedig (neu 0.2%) o gymharu â'r ffigur ar gyfer mis Chwefror 2025. Yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2026, roedd y cynnydd mewn gweithwyr ar y gyflogres yn y DU ar ei fwyaf yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 42,000 o weithwyr cyflogedig neu 0.9%) tra bod y gostyngiad mwyaf yn y sector cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 49,000 neu -1.1%).[19] Rhwng mis Chwefror 2025 a mis Chwefror 2026 cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y gweithwyr cyflogres mewn nifer o sectorau gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, gweithgareddau gwasanaeth bwyd a llety, gwybodaeth a chyfathrebu, a gwasanaethau gweinyddol a chymorth.

Roedd pryderon cyflogaeth yn economi Cymru yn parhau mewn sectorau sy'n wynebu defnyddwyr ac sy'n sensitif i gostau. Yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2025, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru 2,500 (neu -0.2%) i 1.31m.[20] Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogres yn ôl sector yn cael ei ddiweddaru'n llai aml, ond dengys y data ar gyfer mis Ionawr 2026 fod y gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru dros y flwyddyn ar ei amlycaf ym maes cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 3,500 o weithwyr cyflogedig neu -2.0%), gweithgynhyrchu (gostyngiad o 2,200, neu -1.8%) a gweithgareddau gwasanaeth bwyd a llety (gostyngiad o 2,100 o weithwyr cyflogedig, neu -2.2%).[21]

[16] https://www.theguardian.com/business/2026/feb/23/uk-job-vacancies-fall-to-lowest-level-since-pandemic
[17] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/march2026
[18] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/march2026
[19] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted
[20] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted
[21] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted

## Cyfraddau diweithdra yn y DU ac yng Nghymru

Roedd y data diweithdra diweddaraf sydd ar gael o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS), ar adeg ysgrifennu, ar gyfer y cyfnod deuddeg mis hyd at fis Medi 2025 (oherwydd materion ansawdd data parhaus gydag Arolwg Llafurlu SYG, defnyddiwyd data APS yn yr adroddiad hwn).

Yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2025, amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra’r DU (pawb 16+ oed) yn 4.2%.[22] Roedd hyn yn gynnydd o 0.5 pwynt canran o'r ffigur ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2024.

Roedd y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 yn Llundain (5.6%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (5.4%), Gogledd-ddwyrain Lloegr (4.8%), a Chymru (4.5%), a’r cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (1.9%), De-orllewin Lloegr (3.3%), De-ddwyrain Lloegr (3.5%), a'r Alban (3.7%). Yng Nghymru, roedd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at fis Medi 2025 (a nodwyd uchod fel 4.5%) yn gynnydd o 1.6 pwynt canran o'r gyfradd ddiweithdra yn ystod y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2024.

## Mae nifer yr hawlwyr budd-dal diweithdra yn gostwng yn y DU a Chymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2026, gostyngodd nifer yr hawlwyr budd-daliadau diweithdra yn y DU (heb ei addasu'n dymhorol) 33,400 i 1.72m o bobl.[23]

Yng Nghymru, hawliodd 65,985 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Chwefror 2026 (sy'n cyfateb i 3.4% o'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed, heb ei addasu'n dymhorol, o gymharu â ffigur o 3.9% ar gyfer y DU), sef gostyngiad o 770 yn nifer yr hawlwyr o gymharu â mis Chwefror 2025.[24] Dylid nodi bod y gwerthoedd ar gyfer Chwefror 2026 yn rhai dros dro ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn ôl y data ar gyfer mis Ionawr 2026, yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra oedd Casnewydd (4.5%), Blaenau Gwent (4.1%), Caerdydd (3.9%), Ynys Môn (3.8%), Conwy (3.8%), a Thorfaen (hefyd 3.8%), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.4%), Powys (2.7%), Ceredigion (2.7%), Sir Gaerfyrddin (2.9%), a Sir y Fflint (2.9%).

## Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i ostwng yn y DU a Chymru

Cyfradd anweithgarwch y DU (rhwng 16 a 64 oed) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 oedd 21.1% yn ôl data Arolwg Poblogaeth Blynyddol y SYG[25], sef gostyngiad o 0.6 pwynt canran o'i gymharu â ffigur blwyddyn yn flaenorol (mis Hydref 2023 i fis Medi 2024). Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 24.1% yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, i lawr 1.0 pwynt canran o'r ffigur yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2024. Er gwaethaf y gwelliannau diweddar, mae anweithgarwch yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, gan barhau i gyfyngu ar y cyflenwad llafur.

[22] SYG, Arolwg Poblogaeth Blynyddol, https://www.nomisweb.co.uk/
[23] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01
[24] https://stats.gov.wales/en-GB/64d58bef-c97c-4413-8aed-2298eac3a419
[25] SYG, Arolwg Poblogaeth Blynyddol, https://www.nomisweb.co.uk/


## Mae allbwn diwydiant adeiladu Cymru yn gostwng o Ch4 2024 i Ch3 2025

Dangosir mynegeion gwasanaethau cynhyrchu, adeiladu a marchnad Cymru ar gyfer Ch3 2022 i Ch3 2025 yn Ffigur 2.1. Yn Ch3 2025 roedd mynegai cynhyrchu Cymru 4.2% yn is na lefel 2023, a'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU 1.3% yn is na lefel 2023. Yn ystod rhan olaf 2024 ac i mewn i 2025, roedd gostyngiad allbwn yn Tata Steel, de Cymru, ymhlith yr elfennau a effeithiodd yn negyddol ar y mynegai cynhyrchu.

Gwelodd mynegai adeiladu Cymru gyfnod o dwf sylweddol yn 2022 a 2023 oherwydd bod nifer o brosiectau adeiladu mawr yn digwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, datgelodd data diwygiedig diweddar ar gyfer allbwn adeiladu fod y sector yng Nghymru wedi cael trydydd chwarter yn olynol o ddirywiad yn Ch3 2025. Arhosodd mynegai adeiladu Cymru 23.0% yn is na lefel Cymru 2023 yn Ch3 2025, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU 2.3% yn uwch na lefel 2023. Fodd bynnag, arafodd cyfradd dirywiad mynegai adeiladu Cymru ychydig yn Ch3 2025. Arhosodd mynegai gwasanaethau marchnad Cymru yn weddol sefydlog dros y cyfnod a ddadansoddwyd, sef 2.2% yn uwch na lefel 2023 erbyn Ch3 2025. Cyrhaeddodd y ffigur cymharol ar gyfer y DU 2.5% yn uwch na lefel 2023.

Nododd adroddiad Agents' Summary of Business Conditions[26] Banc Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026, fod gweithgarwch adeiladu yn y DU wedi'i gyfyngu gan gostau uwch, galw gwan, cyllid cyhoeddus gohiriedig neu ansicr, prinder o ran y cyllid sydd ar gael, ac oedi parhaus o ran cynllunio a rheoleiddio. Nododd yr adroddiad fod disgwyliadau adfer yn y sector wedi'u gwthio allan i ddechrau 2027 (gweler hefyd adran 3).

**Ffigur 2.1.**
***Mynegeion allbwn Cymru: tuedd Ch3 2022 – Ch3 2025 (2023=100)***




**Ffynhonnell:** Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2023=100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau'r Farchnad (2023=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

[26] https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2026/march-2026

## Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru yn ystod y flwyddyn i Ch4 2025

Mae'r SYG yn cynghori cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli data masnach gan fod ffigurau fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu enwol (sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant).

Mae'r data masnach mewn nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos bod cynnydd wedi bod yng ngwerth allforion o holl wledydd y DU, ac eithrio'r Alban, yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025 o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.[27] Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 1.4% i £19.16 biliwn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025 (o gymharu â chynnydd o 1.2% yn Lloegr ac 1.1% yng Ngogledd Iwerddon, ond gostyngiad o 4.4% yn yr Alban).

Dros y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2025, cynyddodd cyfanswm gwerthoedd allforio nwyddau yng Nghymru mewn nifer o gategorïau cynnyrch.[28] Cynyddodd gwerth allforio peiriannau ac offer trafnidiaeth i £9.33 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben Ch4 2025, o £8.84 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, sef cynnydd o 5.5%. Cododd gwerth allforion bwyd ac anifeiliaid byw i £0.91 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben Ch4 2025, o £0.80 biliwn yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 14.7%. Fodd bynnag, gostyngodd gwerth allforio nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu (wedi'u dosbarthu'n bennaf yn ôl deunydd) i £2.22 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben Ch4 2025, o £2.55 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, sef gostyngiad o 13.1%.

Cyfanswm cyfrif allforwyr Cymru yn Ch4 2025 oedd 3,094 – bron dim newid o Ch4 2024 pan oedd y ffigur yn 3,096 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan).[29] Yn yr un cyfnod, cafwyd 3.7% o ostyngiad ar gyfer y DU gyfan.[30] Dangosodd data maint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch4 2025 fod crynswth net o 7.83 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, sef 4.6% o gynnydd o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.[31]

Yng Nghymru, datgelir mor fregus yw'r sefyllfa yn barhaus i newidiadau yn y galw byd-eang ac amodau masnach yn y data ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol.  Dros y flwyddyn hyd at Ch4 2025, gostyngodd cyfanswm gwerth allforio Cymru yn ôl cynnyrch i'r Unol Daleithiau i £2.72bn, o £2.84bn yn y deuddeg mis blaenorol, sef gostyngiad o 4.2%.[32] Er gwaethaf hyn, yr Unol Daleithiau oedd y brif wlad oedd yn gyrchfan (yn ôl gwerth) o hyd ar gyfer allforion o Gymru.

Yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2025, gostyngodd gwerth y nwyddau a fewnforiwyd i Gymru 4.4% i £20.38bn o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.  Mae hyn o'i gymharu â 7.7% o gynnydd yng ngwerth mewnforion yn yr Alban, 2.8% yn Lloegr, a 3.6% yng Ngogledd Iwerddon.[33]

Yng Nghymru, cyfanswm y cyfrif mewnforwyr yn Ch4 2025 oedd 8,162, sef 8.3% o ostyngiad o'i gymharu â'r ffigur yn Ch4 2024. Yn y DU cynyddodd cyfanswm y cyfrif mewnforwyr 2.1% dros yr un cyfnod.[34] Dangosodd data maint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch4 2025 fod crynswth net o 16.01 biliwn cilogram wedi'i allforio i Gymru, sef 3.9% o ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd Ch4 2024.[35]

[27] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/
[28] https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard
[29] "Whole number method": A business counts as 1 in each region they have employees.
[30] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/#datasets
[31] https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard
[32] https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard
[33] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/
[34] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2025/#datasets
[35] https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard
[36] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2026-03/size-analysis-businesses-2025-012003.pdf

## Dadansoddiad o faint busnesau gweithredol yng Nghymru

Amcangyfrifodd y data diweddaraf o'r Dadansoddiad o Faint Busnesau Gweithredol yng Nghymru, a gyhoeddwyd mewn bwletin ystadegol gan Lywodraeth Cymru[36] ym mis Mawrth 2026, fod 246,500 o fentrau'n weithredol yng Nghymru yn 2025 – sef 2.9% o ostyngiad o'r ffigur cyfatebol ar gyfer 2024. Yn 2025, roedd mentrau gweithredol yng Nghymru yn cyflogi 1.1 miliwn o bobl (i lawr 1.0% o'r flwyddyn flaenorol), gyda throsiant cyfunol o £148.5bn (wedi gostwng 0.8% o gymharu â 2024). Dengys y bwletin bwysigrwydd busnesau bach a chanolig (BBaChau) i economi Cymru, a hwythau'n gyfrifol am 62.3% o gyflogaeth, a 42.5% o drosiant yn 2025. Yn yr un cyfnod, roedd 37.7% o'r gyflogaeth yng Nghymru mewn mentrau mawr (a ddiffinnir fel rhai sy'n cyflogi 250 o weithwyr neu fwy). Mae hyn yn cymharu â 40.2% yn y DU gyfan.

Yn ôl diwydiant, roedd strwythur cyflogaeth mewn BBaChau yng Nghymru yn 2025 yn "debyg i raddau helaeth" i'r DU, a'r sector adeiladu yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o gyflogaeth mewn BBaChau yng Nghymru a'r DU. Roedd y gwahaniaeth mwyaf yn y sector gwasanaethau ariannol a busnes gyda 61.6% o gyflogaeth yng Nghymru o fewn BBaChau, o'i gymharu â ffigur y DU o 57.2%. Amcangyfrifir bod 0.7% o fentrau a oedd yn weithgar yng Nghymru yn 2025 yn eiddo tramor (cynnydd o 8.5% ar y ffigur ar gyfer 2024). Roedd y garfan hon yn cyfrif am 15.9% o gyflogaeth (cynnydd o 3.5% ar 2024).

## Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o'r rhagolygon annibynnol a gafwyd rhwng 2 a 13 Mawrth 2026 yn Rhagolygon Trysorlys EF ar gyfer Economi'r DU ym mis Mawrth 2026.[37] Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf CDG y DU yn 2026 oedd 0.9%, sef 0.2 pwynt canran o ostyngiad o'r hyn a flaenamcanwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad Chwefror 2026.[38]

Dengys Atodiad 2 yr adroddiad hwn grynodeb o ragolygon CDG dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2026 a 2027, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Diweithdra LFS, a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD), a Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM).


[36] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2026-03/size-analysis-businesses-2025-012003.pdf
[37] https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2026
[38] https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-february-2026

- Parhaodd hyder busnesau bach y DU ar ei lwybr tuag i lawr yn Ch4 2025.
- Crybwyllodd 28% o BBaChau dwf yn y 12 mis diwethaf yn ystod Ch4 2025.
- Roedd genedigaethau busnes yng Nghymru yn fwy na marwolaethau busnes yn ystod Ch4 2025.
- Ar y cyfan, mae gweithgarwch adeiladu'r DU yn parhau i fod yn wan.

## Parhaodd hyder busnesau bach y DU ar ei lwybr tuag i lawr yn Ch4 2025

Parhaodd Mynegai Busnesau Bach y DU (SBI)[39] y Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB) â'i lwybr tuag i lawr yn ystod chwarter olaf 2025, gan ostwng 12 pwynt arall i isafbwynt newydd ar ôl y pandemig sef -70.6. Dengys Ffigur 3.1 duedd SBI y FfBB rhwng Ch4 2023 a Ch4 2025.

**Ffigur 3.1.**
***Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU, Ch4 2023 – Ch4 2025***




**Ffynhonnell:** Mynegai Busnesau Bach FfBB[40]


[39] Mae'r FfBB yn esbonio: 'Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai wedi'i bwysoli o'r ymatebion i'r cwestiwn: "O ystyried eich perfformiad busnes cyffredinol, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o gymharu â'r tri mis blaenorol?" Mae cyfran y cwmnïau sy'n crybwyll llawer gwell yn cael y pwysiad +2, ychydig yn well +1, tua'r un peth 0, ychydig yn waeth -1, a llawer gwaeth -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn'.

[40] Mynegai Busnesau Bach FfBB, https://www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index

## Hyder busnesau bach Cymru yn fwy cadarnhaol na chyfartaledd y DU yn ystod Ch4 2025

Rhyddhaodd yr FfBB hefyd ganfyddiadau SBI ar gyfer Cymru yn ystod Ch4 2025, nad oedd wedi gallu adrodd yn eu cylch o'r blaen oherwydd maint sampl annigonol. Roedd SBI Cymru yn ystod Ch4 2025 yn -58.8, sef yr ail genedl/rhanbarth mwyaf cadarnhaol ym Mhrydain ar ôl yr Alban. Dengys Ffigur 3.2 yr SBI yn ôl rhanbarth/cenedl Prydain Fawr yn ystod Ch4 2025. Roedd maint y sampl yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i fod yn annigonol ar gyfer canlyniadau dibynadwy, ac unwyd rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr â Swydd Efrog a Humber am resymau tebyg.

**Ffigur 3.2.**
***Mynegai Hyder Busnesau Bach Rhanbarthau/Cenhedloedd y DU, Ch4 2025***




**Ffynhonnell:** Mynegai Busnesau Bach FfBB[41]

Yn Ch4 2025, gostyngodd balans net y busnesau bach sy'n crybwyll twf refeniw ymhellach i isafbwynt newydd o -34.9, yn dilyn gostyngiadau blaenorol o -34.3 yn Ch3 2025, -26.8 yn Ch2 2025, a -25.4 yn Ch1 2025. Yn y cyfamser, roedd disgwyliadau ar gyfer twf refeniw yn ystod Ch1 2026 yn -34.3.

Am y seithfed chwarter yn olynol yn ystod Ch4 2025 cofnododd pob sector ddarlleniad negyddol. Gydag adeiladu (i lawr 25.5), masnach cyfanwerthu a manwerthu (i lawr 22.2), a gwasanaethau llety a bwyd (i lawr 15.5) yn cofnodi'r gostyngiadau sector mwyaf mewn teimlad busnes o'r chwarter blaenorol. Busnesau llety a gwasanaeth bwyd oedd y sector mwyaf pesimistaidd o hyd yn Ch4 2025, gan gofnodi SBI sectoraidd o -104.1.

[41] Mynegai Busnesau Bach FfBB https://www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index

## Yr economi ddomestig yw'r prif achos pryder i BBaChau o hyd

Yr economi ddomestig oedd y rhwystr mwyaf cyffredin rhag twf yn Ch4 2025 o hyd, a'r baich treth, costau llafur, a galw defnyddwyr oedd y rhwystrau nesaf a grybwyllwyd fwyaf rhag twf. Yn y cyfamser, cost cyllid a chael gafael ar gyllid oedd y rhwystrau a grybwyllwyd leiaf rhag twf.

Adroddodd Monitor Hyder Busnes (BCM) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) ar gyfer Ch4 2025 hefyd ostyngiad pellach yn hyder busnes cyffredinol y DU i -11.1, yn dilyn gostyngiadau o -7.3 yn Ch3 2025, -4.2 yn Ch2 2025, a -3.0 yn Ch1 2025. Hwn oedd y chweched dirywiad chwarterol yn olynol ar gyfer y mynegai hwn. Mae'r mynegai felly'n parhau i fod ymhell islaw ei norm hanesyddol o +5.3.[42]

Nododd y BCM fod hyder busnes rhanbarthol yn gymysg. Gogledd-orllewin Lloegr oedd yr unig ranbarth â hyder cadarnhaol yn ystod Ch4 2025, tra bod Cymru wedi syrthio yn ôl i diriogaeth negyddol o -7.8 (o +0.9 yn Ch4 2025), er ei bod yn parhau yn uwch na chyfartaledd y DU o -11.1. Yn y cyfamser, arafodd twf elw blynyddol busnesau Cymru i 2.4% yn ystod Ch4 2025, o 4.7% yn ystod Ch3 2025, ac roedd islaw cyfartaledd y DU o 2.7%.

Mae Mynegai Busnesau Bach (SBI) diweddaraf yr FfBB yn deillio o arolwg a gynhaliwyd ymhlith 1,200 o berchnogion busnesau bach ac unig fasnachwyr, a gynhaliwyd rhwng 9 a 23 Rhagfyr 2025.[43] Mae canlyniadau arolwg BCM ICAEW yn seiliedig ar 1,000 o gyfweliadau ffôn â Chyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU. Mae'r arolwg BCM diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 8 Hydref a 11 Rhagfyr 2025. Un o'r prif wahaniaethau o ran methodoleg rhwng yr arolygon hyn yw bod arolwg SBI yn canolbwyntio ar fusnesau bach, a BCM yn cynnwys cwmnïau o bob maint.

## Yn Ch4 2025 crybwyllodd 28% o BBaChau dwf dros y 12 mis blaenorol

Dywedodd Monitor Cyllid BBaChau y DU Ch4 2025[44] fod 28% o'r holl BBaChau a ymatebodd yn y DU (ac eithrio rhai sy'n cychwyn) wedi crybwyll twf dros y 12 mis blaenorol, yn uwch na'r 24% a grybwyllwyd yn ystod Ch3 2025, ond yn gyson â Ch1 a Ch2 2025. Serch hynny, arhosodd hyn ymhell islaw'r lefel nodweddiadol cyn y pandemig sydd tua 40%. Roedd y profiad yn amrywio yn ôl maint BBaCh, gyda 42% o'r busnesau yn y DU sy'n cyflogi 50-249 o weithwyr (gostyngiad ers y chwarter blaenorol), 46% o'r rheini sy'n cyflogi 10-49, 36% sy'n cyflogi 1-9, a 25% o'r rheini heb weithwyr cyflogedig, yn destun twf yn ystod Ch4 2025.

Adroddodd y Monitor Cyllid hefyd, yn ystod Ch4 2025, fod 41% o BBaChau yn rhestru ansicrwydd gwleidyddol, 40% yn rhestru'r hinsawdd economaidd, a 37% yn rhestru costau uwch, yn rhwystrau mwyaf arwyddocaol rhag twf.

Wrth edrych ymlaen, canfu Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaChau Banc Busnes Prydain a Dirnad Economi Cymru fod 48% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn disgwyl sefydlogrwydd yn ystod 2026, tra bod 30% yn disgwyl twf, 11% yn disgwyl i'w busnesau grebachu, 9% yn disgwyl amodau masnachu anodd neu risg o gau, a 2% yn ansicr.[45]

---

[42] Eglura ICAEW: 'mae canlyniadau'r arolwg yn seiliedig ar 1,000 o gyfweliadau ffôn ymhlith Cyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU, gan sicrhau darlun cynrychioliadol o economi'r DU'. www.icaew.com/technical/economy/business-confidence-monitor/business-confidence-monitor-national

[43] https://www.fsb.org.uk/media-centre/press-release/sort-out-the-cost-hikes-facing-small-firms-chancellor-told-MCFKNKLSWMRNDJRCIWVCLLKFTXMM#:~:text=Notes%20to%20editors%20*%20The%20confidence%20score,and%20sole%20traders%20between%209%2D23%20December%202025

[44] https://www.bva-bdrc.com/sme-finance-monitor/#reports


[45] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2026-02/BBB_Wales_DNA2F_Report_FINALv.pdf

## Mwy o enedigaethau busnes yng Nghymru na marwolaethau busnes

Adroddodd y SYG gyfanswm amcangyfrifedig o 71,935 o enedigaethau busnes yn y DU, a gofnodwyd fel cofrestriadau TAW/PAYE newydd, yn ystod Ch4 2025, o gymharu â 65,750 o farwolaethau busnes. Mae Ffigur 3.3 yn datgelu'r amrywiad o enedigaethau a marwolaethau busnes chwarterol yng Nghymru dros y cyfnod rhwng Ch4 2022 a Ch4 2025.[46]

Nifer y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch4 2025 oedd 2,405, tra bod nifer y marwolaethau busnes yn ystod yr un cyfnod yn 2,225, yr ail chwarter yn olynol pan oedd genedigaethau busnes yn fwy na marwolaethau busnes.

**Figure 3.3.**
***Demograffeg Busnes Chwarterol yng Nghymru, Ch4 2022 – Ch4 2025***




**Ffynhonnell:** ONS Business Demography, Quarterly Experimental Statistics, UK[47]

[46] http://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk
[47] SYG, ibid.

## Arolwg o Effeithiau ac Amodau Busnes

Adroddodd Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 31 Ionawr (Ton 150)[48] fod 25.1% o fusnesau Cymru a arolygwyd wedi cael mwy o drosiant ym mis Ionawr 2026 o'i gymharu â'r mis blaenorol (26.1% yn y DU). Roedd tua 39.1% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru yn disgwyl i drosiant gynyddu ym mis Mawrth 2026 o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 35.6%.[49]

Datgelodd y BICS hefyd, yn ystod mis Ionawr 2026, fod 12.5% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru (12.4% yn y DU) wedi dweud bod prisiau'r nwyddau a'r gwasanaethau a werthwyd gan eu busnesau wedi cynyddu o gymharu â'r mis blaenorol. Yn y cyfamser, dywedodd 21.6% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru (22.8% yn y DU) fod y prisiau yr oeddent wedi'u talu am nwyddau a gwasanaethau wedi cynyddu ers y mis blaenorol.

Dywedodd tuag 16.2% o gwmnïau Cymru eu bod yn disgwyl i'w nifer o weithwyr cyflogedig gynyddu ym mis Mawrth 2026 (16.7% yn y DU). O gymharu â'r un cyfnod yn 2025, roedd 25.8% o fusnesau Cymru a arolygwyd o'r farn bod eu perfformiad wedi cynyddu (24.5% yn y DU), gyda 21.0% yn credu ei fod wedi gostwng (22.3% yn y DU). O ran disgwyliadau yn y dyfodol, roedd 39.4% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod (37.0% yn y DU).

[48] www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukeconomy


[49] Er mwyn cyflwyno data Cymru (a data cymharol y DU) ar gyfer y cyfnod hwn, bu'n angenrheidiol defnyddio data heb ei bwysoli sy'n dangos canlyniadau ymatebwyr arolwg y SYG yn unig, nad yw wedi'i addasu i gynrychioli nodweddion busnes ehangach Cymru (y DU).

## Ansolfedd busnes

Dengys Ffigur 3.4 duedd ansolfedd cwmnïau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhwng mis Chwefror 2024 a mis Chwefror 2026. Roedd cyfanswm yr achosion misol o ansolfedd ym mis Chwefror 2026 yn is o 1,878 na 12 mis yn flaenorol pan oedd 2,015 o achosion ansolfedd.

Caiff y gyfradd gyffredinol hon ei sbarduno gan ddatodiadau gwirfoddol credydwyr, a oedd yn 1,473 ym mis Chwefror 2026, tra bod nifer y datodiadau gorfodol yn 249 yn yr un mis.

**Ffigur 3.4.**
***Achosion o Ansolfedd Cwmnïau Cofrestredig Misol, Cymru a Lloegr, Chwefror 2024 – Chwefror 2026 (wedi'i addasu'n dymhorol)***




**Ffynhonnell:** Ystadegau Misol Ansolfedd Llywodraeth y DU[50]

Gall dyfarniadau Llys Sirol ar gyfer dyled nodi ansolfedd posibl yn y dyfodol yn rhan o duedd ehangach. Dengys data dros dro fod cyfanswm o 454,000 o hawliadau Llys Sirol yn ystod Ch4 2025, sef 3% o gynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. O'r rhain, roedd 85% yn hawliadau ariannol, i fyny 7% ar yr un chwarter yn 2024.[51]


[50] www.gov.uk/government/collections/company-insolvency-statistics-releases
[51] www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly#2024

## Cynyddodd prisiau tai yng Nghymru 2.0% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2026

Dengys data SYG sy'n cofnodi pryniannau arian parod a morgais mai £210,186 oedd pris tai cyfartalog yng Nghymru ym mis Ionawr 2026, sef 2.0% o gynnydd ers mis Ionawr 2025. Yn gyffredinol, cynyddodd prisiau tai yn y DU 1.3% yn y 12 mis hyd at fis Ionawr 2026, a phris tai cyfartalog y DU ym mis Ionawr 2026 oedd £268,000, sef £3,000 yn uwch na 12 mis ynghynt.[52]

Adroddodd Banc Lloegr fod cymeradwyaethau morgais net ym mis Chwefror 2026[53] ar gyfer prynu tai yn 62,500, tra bod benthyca net o ran dyled morgais gan unigolion yn £4.8 biliwn ym mis Chwefror. Yn y cyfamser, adroddodd y Banc hefyd fod y gyfradd llog effeithiol (y gyfradd llog wirioneddol a dalwyd) ar forgeisi newydd wedi cynyddu ychydig i 4.10% ym mis Chwefror (o 4.09% ym mis Ionawr), ac i 3.95% ar y stoc sy'n ddyledus o forgeisi (o 3.90% ym mis Ionawr). Cynyddodd cymeradwyaethau ail-forgeisio i 41,200 ym mis Chwefror, ond mae'n bwysig nodi bod y data hwn yn cynnwys cymeradwyaethau ail-forgeisio gyda benthyciwr gwahanol yn unig.

**Ffigur 3.5.**
***Mynegai Prisiau Tai Cymru a'r DU SYG, Newid Canrannol Blynyddol, Ionawr 2024 – Ionawr 2026***




**Ffynhonnell:** Mynegai Prisiau Tai SYG[54]

[52] www.gov.uk/government/collections/uk-house-price-index-reports
[53] www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest
[54] SYG op. cit.

## Mae gweithgarwch adeiladu'r DU yn parhau i fod yn wan

Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu y DU S&P Global[55] 44.5 ym mis Chwefror 2026, i lawr o 46.4 ym mis Ionawr, gan aros islaw'r trothwy niwtral 50.0. Adeiladu preswyl oedd y maes gweithgarwch gwannaf ym mis Chwefror, gan gofrestru 37.0, tra bod peirianneg sifil wedi cofnodi 41.0, ac adeiladau masnachol 46.5.

Yn y cyfamser, yn ei Adroddiad Polisi Ariannol diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, adroddodd Banc Lloegr ei fod yn disgwyl twf buddsoddi tai blynyddol cymharol gryf yn ystod 2027 a 2028.[56]

## Mae'r farchnad eiddo masnachol yn parhau i ddangos arwyddion cymysg o adfer

Mae marchnad eiddo masnachol y DU wedi parhau i ddangos arwyddion cymysg yn ystod chwarter olaf 2025 a chwarter cyntaf 2026, gyda rhai arwyddion o adfer ochr yn ochr â heriau parhaus. Cafwyd adlam mewn prif leoliadau swyddfeydd, fel yn Llundain, ond mewn ardaloedd eraill mae'r amodau'n heriol o hyd.[57] Mae buddsoddwyr yn fwyfwy detholus ac wedi canolbwyntio ar leoliadau gwerth uwch sydd wedi’u cysylltu’n dda.[58]

[55] www.pmi.spglobal.com/Public/Release/PressReleases
[56] www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/monetary-policy-report
[57] www.ft.com/content/40a45c02-a52d-4a0e-97d8-2fb0417d0427?syn-25a6b1a6=1
[58] www.ft.com/content/9b696d24-da71-4fdf-8738-feb792e83781

- Yn ystod Ch4 2025 cynyddodd benthyciadau gros i BBaChau y DU gan brif fanciau'r stryd fawr ychydig dros 6% o gymharu â'r un cyfnod yn 2024.
- Y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i BBaChau oedd 6.26% ym mis Chwefror 2026, i lawr o 6.90% ym mis Chwefror 2025.

## Y cyflenwad a'r galw am fenthyciadau busnes

Mae Arolwg Amodau Credyd chwarterol Banc Lloegr yn ystyried tueddiadau a datblygiadau yn amodau credyd trechaf y DU. Gofynnodd arolwg Ch4 2025 i fenthycwyr roi gwybod am eu newidiadau canfyddedig yn y cyflenwad credyd, a'r galw am gredyd, ar gyfer y tri mis a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2025, o gymharu â'r tri mis a ddaeth i ben ym mis Awst 2025.[59]

Gofynnwyd i fenthycwyr hefyd am eu disgwyliadau o newidiadau hyd at ddiwedd mis Chwefror 2026. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 10 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2025 ac nid yw'n cyfrif am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Dywedodd benthycwyr nad oedd argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol wedi newid yn Ch4 2025. Cynyddodd argaeledd credyd i fusnesau bach, a chynyddodd ychydig ar gyfer busnesau canolig a mawr yn ystod Ch4 2025. Eglura Banc Lloegr efallai bod y gwahaniaeth hwn yn bodoli gan y gall benthycwyr unigol grybwyll mwy o argaeledd ar gyfer un maint o fusnes, gydag argaeledd heb newid ar gyfer busnesau o feintiau eraill ac felly ar gyfer cwmnïau yn gyffredinol. Disgwyliwyd i argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol fod yn ddigyfnewid yn Ch1 2026.

Yn y cyfamser, dywedodd benthycwyr fod y galw am fenthyca gan fusnesau bach, canolig a mawr yn ddigyfnewid yn Ch4 2025, a bod disgwyl iddo aros yn ddigyfnewid ar gyfer busnesau o bob maint yn ystod Ch1 2026.

Canfu UK Finance mai 2025 oedd yr ail flwyddyn yn olynol pan gynyddodd benthyca cyffredinol gan brif fanciau'r stryd fawr i BBaChau, er i raddau llai nag yn 2024. Er bod twf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn benthyca gros wedi parhau i Ch4 2025 sef ychydig dros 6%, parhaodd y patrwm o arafu twf a welwyd trwy gydol y flwyddyn yn y chwarter olaf.[60] Roedd benthyca gros i gwmnïau bach yn 2025 wedi cynyddu chwarter o'i gymharu â 2024, tra bod benthyca i fusnesau canolig wedi cynyddu 4%.

[59] www.bankofengland.co.uk/credit-conditions-survey/2025/2025-q4
[60] www.ukfinance.org.uk/data-analysis/data


## Roedd 66% o BBaChau Cymru wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn Ch4 2025

Canfu'r Monitor Cyllid BBaChau fod 47% o BBaChau yn y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod Ch4 2025.[61] Yn y cyfamser, mae tystiolaeth gan Fanc Busnes Prydain a Dirnad Economi Cymru yn dangos bod 66% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod chwarter olaf 2025.[62] O ran mathau o gyllid, cardiau credyd busnes (31%) a chardiau credyd personol (23%) oedd y rhai a ddefnyddiwyd amlaf ymhlith BBaChau yng Nghymru. Yn y cyfamser, roedd benthyciadau Covid-19 a gorddrafftiau busnes, y math nesaf o gyllid busnesau bach a ddefnyddir amlaf yng Nghymru, ill dau yn 22% yn ystod chwarter olaf 2025.

Dengys Ffigur 4.1 ganran y BBaChau ym mhob Cenedl/Rhanbarth yn y DU wnaeth ddweud bod argraff ei bod yn anodd sicrhau cyllid busnes yn ystod Ch4 2025. Busnesau bach a chanolig yng Nghymru oedd fwyaf tebygol o adrodd argraff o'r fath sef 50%, tra bod cyfartaledd y DU yn 36%.

**Ffigur 4.1**

***Argraff BBaChau Rhanbarthau/Cenhedloedd y DU o Anhawster wrth Sicrhau Cyllid, Ch4 2025***





**Ffynhonnell:** Monitro Cyllid BBaChau[63]

[61] www.bva-bdrc.com/sme-finance-monitor/#reports
[62] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2026-02/BBB_Wales_DNA2F_Report_FINALv.pdf
[63] www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports

## Roedd y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyciadau BBaCh ym mis Chwefror 2026 yn is na 12 mis ynghynt

Dengys Ffigur 4.2 gyfradd twf fisol benthyciadau BBaChau, a'r gyfradd llog wedi'i phwysoli yn seiliedig ar ddata Banc Lloegr ar gyfer y cyfnod Chwefror 2025 i Chwefror 2026.[64] Cynyddodd cyfradd twf benthyca gan BBaChau i 2.8% yn ystod mis Chwefror 2026, i fyny o 2.4% ym mis Ionawr. Yn y cyfamser, cododd y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i BBaChau i 6.26% ym mis Chwefror 2026, i fyny o 6.14% ym mis Ionawr 2026, ond arhosodd yn is nag ym mis Chwefror 2025.

**Ffigur 4.2.**
***Cyfradd Twf Benthyciadau BBaChau a Cyfradd Llog Effeithiol Benthyciadau i BBaChau, Chwefror 2025 – Chwefror 2026***




**Ffynhonnell:** Banc Lloegr[65]

[64] Cyfartaledd misol cyfradd llog gyfartalog wedi'i bwysoli sterling banciau preswyl y DU - benthyciadau eraill, cyfradd gyfnewidiol sy'n gysylltiedig â'r Gyfradd Banc (<3 mis o ailosod) i fusnesau bach a chanolig (mewn canran) heb ei haddasu'n dymhorol.

[65] Banc Lloegr, Money and Credit www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=-False&Direction=Latest

## Buddsoddiadau ecwiti

Caiff buddsoddiadau ecwiti mewn BBaChau eu hwyluso gan endidau fel cronfeydd cyfalaf menter, buddsoddwyr angel, llwyfannau cyllido torfol, corfforaethau, a chronfeydd llywodraethol, a gellir eu defnyddio ar draws gwahanol gamau datblygu busnes.[66]

Amlinellodd adroddiad blynyddol Marchnadoedd Cyllid Busnesau Bach 2025/26[67] Banc Busnes Prydain y newidiadau ym marchnadoedd dyled y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd yr adroddiad gynnydd bach ym mhowdr sych y cronfeydd dyled preifat (y cyfalaf sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau newydd) oherwydd twf mewn gweithgaredd codi arian. Ar ddiwedd 2025, roedd cronfeydd dyled preifat y DU wedi cronni £53.7bn mewn powdr sych, i fyny o £50.2bn ar ddiwedd 2024. Yn fyd-eang, yn ystod 2025 parhaodd trafferthion o ran codi arian ecwiti preifat a chyfalaf menter. Mae niferoedd cronfeydd a maint cyfalaf menter wedi gostwng yn fyd-eang ers y flwyddyn flaenorol.[68]


Gostyngodd nifer y buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau bach yn y DU 23% flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at Ch3 2025, tra bod gostyngiad mwy sylweddol o 53% yng Nghymru dros yr un cyfnod. Yn y cyfamser, gostyngodd gwerth buddsoddiad ecwiti mewn busnesau bach yn y DU hefyd (o 20%) yn ystod tri chwarter cyntaf 2025, gyda chyfanswm gwerth y buddsoddiad mewn BBaChau yng Nghymru yn gostwng yn fwy sylweddol (o 63%) dros yr un cyfnod.[69]

## Risg credyd BBaChau yng Nghymru

Chwiliwyd cronfa ddata FAME Bureau van Dijk o ddata Tŷ'r Cwmnïau ym mis Ebrill i gael tystiolaeth o gyfran y BBaChau yng Nghymru a oedd yn disgyn i wahanol gategorïau risg credyd. Cynhyrchodd y chwiliad 103,427 o BBaChau gyda sgôr credyd hysbys. Mae Ffigur 4.3 yn datgelu, o'r cyfanswm hwn, yr amcangyfrifwyd bod 5.9% o BBaChau yng Nghymru yn y categori sgôr credyd risg Uchaf (i lawr o 6.7% ym mis Rhagfyr 2025). Roedd y categori Gofalus yn cynnwys 55,331 o BBaChau neu 53.5% o'r cyfanswm. Yn gyffredinol, mae'r cyfrannau hyn yn eithaf araf i newid, a diweddariadau i sgôr credyd yn dod ar wahanol gyfnodau yn ôl pryd mae data newydd yn cael ei uwchlwytho i gronfa ddata FAME.

[66] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2019-04/Equity%20Clusters%20Report_final.pdf
[67] Banc Busnes Prydain (2026). Small Business Finance Markets 2025/26. www.british-business-bank.co.uk/about/research-and-publications
[68] Pitchbook (2026). Global Private Market Fundraising Report. https://pitchbook.com/news/reports/2025-annual-global-private-market-fundraising-report
[69] Banc Busnes Prydain (2026). ibid.

**Ffigur 4.3.**
*BBaChau Cymru yn ôl Sgôr Credyd, % (Ebrill 2026)*




**Ffynhonnell:** Data FAME


- Yn Ch3 2025/26, cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 139 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm gwerth o £43.5m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â thros 1,100 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.
- Busnesau yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o werth buddsoddi (bron i 60%) yn Ch3 2025/26. Fe wnaethant hefyd sicrhau'r gyfran uchaf o gyfanswm y swyddi (bron i 70%) yn yr un cyfnod.
- Roedd y sector adeiladu yn dominyddu gweithgarwch buddsoddi yn Ch3 2025/26, gan gyfrif am draean o'r buddsoddiadau yn ôl gwerth (£14.6m).
- Roedd y nifer uchaf o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn y sector gwasanaethau llety a bwyd (209 o swyddi). Sicrhaodd busnesau yn y sector hwn fuddsoddiad o £5.4m yn ystod y cyfnod hwn.

## Cwblhaodd y Banc Datblygu 139 o fuddsoddiadau yn Ch3 2025/26, gan gefnogi dros 1,100 o swyddi

Dengys Ffigur 5.1 gynnydd yn nifer y buddsoddiadau a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru yn Ch3 2025/26 o gymharu â'r ddau chwarter blaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y buddsoddiadau a wnaed yn Ch3 2025/26 yn is na chwarter olaf y flwyddyn ariannol flaenorol (152 o fuddsoddiadau), ac yn is na nifer y buddsoddiadau a wnaed yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol (154 o fuddsoddiadau a wnaed yn Ch3 2024/25, heb eu dangos yn Ffigur 5.1). Yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, cofnododd y Banc Datblygu y niferoedd uchaf erioed o ran nifer y buddsoddiadau, gwerth buddsoddi a swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd.

Nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd ar adeg buddsoddi oedd 1,109 yn Ch3 2025/26, sef cynnydd o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol a ddangosir yn Ffigur 5.1. Roedd bron i 45% o gyfanswm y swyddi a gefnogwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn swyddi a grëwyd; mae'r ffigur cymharol ar gyfer y ddau chwarter blaenorol a ddangosir yn Ffigur 5.1 tua thraean, ac ychydig yn is na hyn yn Ch4 2025/25. Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data buddsoddi chwarterol a all fod yn gyfnewidiol ac a all gael ei ddylanwadu gan nifer fach o fuddsoddiadau sylweddol, yn enwedig pan fo crynodiadau sectoraidd neu ranbarthol yn bresennol (gweler yn ddiweddarach).

**Ffigur 5.1.**
*Buddsoddiadau a swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, Ch4 2024/25 – Ch3 2025/26*





## Cyfanswm gwerth y buddsoddiadau a wnaed yn ystod Ch3 2025/26 oedd £43.5m

Dengys Ffigur 5.2 fod buddsoddiad ecwiti a dyled newydd yn Ch3 2025/26 yn £30.2m, a £13.3m arall o fuddsoddiad datblygu eiddo. Roedd cyfanswm gwerth y buddsoddiad ar gyfer Ch3 2025/26 (£43.5 miliwn), yn uwch na gwerth y tri chwarter blaenorol a ddangosir yn Ffigur 5.2, gyda thuedd gynyddol wedi'i dangos ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 i chwarter 3.

Y buddsoddiad ecwiti (heb ei ddangos ar wahân yn Ffigur 5.2) yn Ch3 2025/26 oedd £4.4 miliwn, o'i gymharu â £3.9 miliwn yn y chwarter blaenorol, £4.1 miliwn yn Ch1 2025/26, ac £1.2 miliwn yn Ch4 2024/25, a'r olaf oedd y chwarter gwannaf ar gyfer buddsoddi ecwiti yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fel yn y chwarteri blaenorol, buddsoddwyd y rhan fwyaf o'r cyllid ecwiti yn Ch3 2025/26 mewn busnesau yn ne-ddwyrain Cymru.

**Ffigur 5.2.**
***Buddsoddiad newydd yn ôl math o fuddsoddiad, £m, Ch4 2024/25 – Ch3 2025/26***





Dengys Ffigur 5.3 fod busnesau yn ne-ddwyrain Cymru wedi cael y mwyafrif o gyfanswm y cronfeydd buddsoddi yn Ch3 2025/26, sef ychydig dros £25.5m (bron i 59%). Roedd hyn o 80 o fuddsoddiadau (58% o'r cyfanswm), a greodd neu a ddiogelodd fwy na 760 o swyddi (69% o'r cyfanswm) yn ne-ddwyrain Cymru. Sicrhaodd busnesau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru ychydig dros £9m o gyllid y Banc Datblygu o 30 buddsoddiad, sy'n gysylltiedig â 145 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu yn Ch3 2025/26, gyda busnesau yng ngogledd Cymru yn sicrhau 29 o fuddsoddiadau gwerth cyfanswm o £8.8m o fuddsoddiad, gan gefnogi 202 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu.

Mae dosbarthiad rhanbarthol gweithgarwch buddsoddi yn tueddu i adlewyrchu'n fras wahaniaethau yn y boblogaeth, dwysedd busnes a graddfa prosiectau ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd cyfran y gweithgarwch buddsoddi yn ne-ddwyrain Cymru ar gyfer Ch3 2025/26 yn arbennig o uchel. Busnesau yn ardaloedd awdurdodau unedol Caerdydd a Chasnewydd a sicrhaodd y gwerthoedd buddsoddi uchaf yn Ch3 2025/26, gan gyfrif am oddeutu hanner y gwerth buddsoddi a'r swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd yn ne-ddwyrain Cymru. Yn y chwarter blaenorol, busnesau yn Sir Gaerfyrddin (canolbarth a de-orllewin Cymru) a gafodd y gyfran awdurdod unedol uchaf o gronfeydd buddsoddi, ac yna Blaenau Gwent (de-ddwyrain Cymru). Mae hyn unwaith eto'n dangos yr amrywioldeb chwarterol mewn gweithgarwch buddsoddi.

## Ar gyfartaledd, roedd pob buddsoddiad a wnaed gan y Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn gysylltiedig â £312,900 o gyllid

Mae'r gwerth buddsoddi cyfartalog yn Ch3 2025/26 ychydig yn uwch na'r chwarter blaenorol (£302,800) ac mae'n debyg i raddau helaeth i'r uchaf erioed a gofnodwyd yn ddiweddar sef £323,000 yn Ch3 2024/25. Roedd rhywfaint o amrywiad mewn gwerthoedd buddsoddi cyfartalog yn ôl rhanbarth yn Ch3 2025/26, gyda'r rhain yn amrywio rhwng £319,100 yn ne-ddwyrain Cymru, £315,700 yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru, a £293,700 yng ngogledd Cymru.

**Ffigur 5.3.**
***Gwerthoedd buddsoddi, £m, a swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn ôl lleoliad Ch3 2025/26***




## Roedd y sector adeiladu yn dominyddu buddsoddiad yn Ch3 2025/26, gan gyfrif am bron i £14.6m o gyllid

Dengys ffigur 5.4 y sectorau o'r economi a sicrhaodd dros £2m o gyllid buddsoddi'r Banc Datblygu yn ystod Ch3 2025/26. Sicrhaodd busnes yn y sector adeiladu tua 34% o gyllid buddsoddi. Mae adeiladu wedi tueddu i fod y sector dominyddol o ran gwerth buddsoddiadau a sicrhawyd gan fusnesau bob chwarter, a'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn dod o Gronfa Eiddo Preswyl y Banc Datblygu. Mae'r Gronfa hon yn cefnogi BBaChau i adeiladu cartrefi newydd (trwy fenthyg hyd at £10m). Bydd y buddsoddiadau hyn yn bwysig i fusnesau adeiladu yng Nghymru, gyda'r sector ehangach yn wynebu amodau heriol (gweler adrannau cynharach o'r adroddiad hwn).

Sicrhaodd yr wyth sector uchaf a ddangosir yn Ffigur 5.4, wedi'u rhestru yn ôl gwerth buddsoddi, 87% o'r holl gyllid buddsoddi, a 61% o swyddi yn Ch3 2025/26. Roedd y nifer uchaf o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn y sector llety a gwasanaethau bwyd (209 o swyddi), ac yna'r sector gwybodaeth a chyfathrebu (118 o swyddi, heb eu dangos yn Ffigur 5.4) ac yna iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (110 o swyddi).

Wrth gymharu nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd â gwerth buddsoddiad, mae'r sector gwybodaeth a chyfathrebu yn cael ei restru uchaf, gyda 94 o swyddi ar y pwynt buddsoddi fesul £1m o fuddsoddiad, ac yna'r sector celfyddydau, adloniant a hamdden, gyda bron i 91 o swyddi ar adeg y buddsoddiad fesul £1m a fuddsoddwyd yn Ch3 2025/26. Fodd bynnag, sicrhaodd y ddau sector symiau cymharol fach o fuddsoddiad. Ymhlith y sectorau hynny a ddangosir yn Ffigur 5.4, y sectorau a restrwyd uchaf ar gyfer swyddi a grëwyd ar adeg buddsoddi fesul £1m o gyllid a fuddsoddwyd oedd iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (52 o swyddi ar adeg y buddsoddiad fesul £1m a fuddsoddwyd), gwasanaethau gweinyddu a chymorth (42 o swyddi ar adeg y buddsoddiad fesul £1m a fuddsoddwyd) a gwasanaethau llety a bwyd (38 o swyddi ar adeg y buddsoddiad fesul £1m a fuddsoddwyd).


Ar draws pob sector, roedd pob £1m o gyfanswm buddsoddiad gan y Banc Datblygu yn Ch3 2025/26 yn cefnogi 25.5 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu ar adeg y buddsoddiad. Wrth eithrio Cronfeydd Eiddo (gweler y nodyn i Ffigur 5.4), roedd pob £1m o gyllid dyled ac ecwiti yn cefnogi bron i 37 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu ar adeg y buddsoddiad.

Fel yn Ch2 2025/26, roedd effaith cyflogaeth uniongyrchol buddsoddiadau yn y sector gweithgynhyrchu wedi gostwng yn Ch3 2025/26.

Gwnaeth y sector greu neu ddiogelu 58 o swyddi (ychydig dros 5% o gyfanswm y swyddi) yn Ch3 2025/26. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd mewn cyllid buddsoddi a gyfrifwyd gan fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu yn Ch3 2025/26 (£3.2 miliwn, 7.4% o gyfanswm gwerth buddsoddi) o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (£1.4 miliwn o gyllid buddsoddi, bron i 4% o'r cyfanswm).

**Ffigur 5.4.**

***Gwerth buddsoddiad, £m, a swyddi yn ôl sector Ch3 2025/26. Sectorau dethol sydd â gwerthoedd buddsoddi uwch na £2m***




**Sylwer:** Ar gyfer rhai cronfeydd a ddefnyddir yn bennaf gan fusnesau yn y sector adeiladu (sy'n ymwneud ag eiddo/adeiladu), nid yw swyddi yn ddangosydd perfformiad allweddol (DPA) felly nid oes unrhyw gyflogaeth, neu gyflogaeth gyfyngedig iawn, yn uniongyrchol gysylltiedig â rhai o'r buddsoddiadau hyn.

# Casgliadau



Daeth adroddiad chwarterol Mawrth 2026 i'r casgliad y byddai eleni yn gweld rhywfaint o welliant yn rhagolygon economaidd y DU. Roedd llawer o'r sylwebaeth ystadegol yn yr adroddiad chwarterol hwn yn seiliedig ar ddeunydd a oedd yn rhagflaenu'r problemau presennol yn y Dwyrain Canol. Bydd y ffaith bod digwyddiadau wedi gwaethygu'n gyflym, yn enwedig cau rhan o Gulfor Hormuz, yn cael effaith arbennig o ddifrifol ar economi'r DU. Yn wir, mae digwyddiadau diweddar yn datgelu pa mor anodd y gall fod i ddaroganwyr economaidd ragweld tueddiadau mewn allbwn a phrisiau yn ein heconomi fyd-eang sydd wedi'i chydgysylltu mor agos.

Mae ymdrechion Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio ar ddod â chwyddiant dan reolaeth, ond bydd y gwrthdaro presennol yn arwain at brisiau uwch a'r posibilrwydd, ar y gorau, o beidio â thorri cyfraddau ymhellach eleni. Mae Banc Lloegr bellach yn rhagweld cyfradd chwyddiant hyd at 3.5% yn ail a thrydydd chwarteri eleni,[70] wedi'i gosod ochr yn ochr â'r disgwyliad gwreiddiol ar ddiwedd 2025 y byddai chwyddiant yn cyrraedd isafbwynt o ryw 2% eleni. Bydd hyn yn effeithio ar gostau benthyca i fusnesau ac aelwydydd fel ei gilydd. Ar gyfer aelwydydd, ymatebodd y cyfraddau llog ar forgeisi cyfnod penodol yn gyflym i ddigwyddiadau yn y Dwyrain Canol, tra bod benthycwyr hefyd wedi tynnu cynhyrchion morgeisi dethol o'r farchnad, gan leihau'r dewis i'r rhai sy'n benthyca. Mae yna hefyd y braw yn sgil yr ergyd i'r galw gan ddefnyddwyr yn ddiweddarach eleni pan fydd y capiau prisiau ynni yn cael eu gwaredu.

Mae'r gwrthdaro unwaith eto wedi amlygu dibyniaeth y DU ar hydrocarbonau wedi'u mewnforio a'r cysylltiadau cymhleth rhwng prisiau olew a nwy, bwyd a gweithgynhyrchu. Yn anochel, bydd ansicrwydd ynghylch prisiau yn cael effeithiau dilynol ar hyder busnesau a phenderfyniadau buddsoddi trwy weddill 2026. Eisoes ar adeg cwblhau'r adroddiad chwarterol hwn (ym mis Ebrill), mae'r rhagolygon ar gyfer twf allbwn y DU wedi'u lleihau gyda'r rhagolygon cyfredol yn amrywio rhwng 0.4% a 0.7% ar gyfer eleni, i lawr o'r 1.1% a ddisgwyliwyd i ddechrau gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

I Gymru, mae effeithiau argyfwng y Dwyrain Canol yn fwy difrifol byth yn sgil lefelau uchel o dlodi tanwydd, nifer gymharol uchel o aelwydydd sy'n dibynnu ar olew gwresogi y mae ei bris wedi cynyddu'n sylweddol, a mwy o ddibyniaeth ar amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu y mae eu cynnyrch wedi'i gysylltu'n agosach â phrisiau olew.

Ym mis Mai cynhelir etholiadau ar gyfer y Senedd newydd. Bydd y weinyddiaeth newydd, o ba bynnag argyhoeddiad gwleidyddol, yn wynebu amodau heriol o ran gwariant cyhoeddus. Ar ben hynny, mae amodau'r farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i achosi pryder. Nododd adroddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid gyfraddau cyflogaeth cymharol isel yng Nghymru, anghydraddoldeb daearyddol sylweddol yng Nghymru o ran cyflogaeth ac enillion, incwm aelwydydd cymharol isel a thua 22% o bobl yng Nghymru mewn tlodi cymharol ar ôl costau tai.[71] Bydd parhad y gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol hyn rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU, ac o fewn Cymru, yn ffurfio'r cyd-destun hanfodol ar gyfer datblygu polisi yn y Senedd newydd, fel ag y bydd y perfformiad cynhyrchiant gwael cysylltiedig yng Nghymru hefyd.

Yn yr amgylchiadau economaidd mwy heriol presennol, bydd y Banc Datblygu yn parhau i chwarae rhan hanfodol dros Gymru o ran darparu cyllid benthyciadau ac ecwiti i fusnesau lleol sy'n wynebu lefelau uwch o ansicrwydd buddsoddi.

[70] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2026/march-2026#:~:text=Preliminary%20staff%20estimates,in%20Budget%202025
[71] https://ifs.org.uk/publications/labour-market-living-standards-and-poverty-trends-wales

# Atodiad 1:

## Adnoddau dethol sy'n cael eu diweddaru'n aml

Mae rhai ffigurau a grybwyllir yn yr adroddiadau chwarterol yn newid yn eithaf cyflym. I'r darllenydd, mae'r atodiad hwn yn darparu dolenni gwe i'r ystadegau sy'n cael eu diweddaru'n aml fel y gellir cael diweddariadau cyn yr adroddiad chwarterol nesaf.

**Diweddariadau am CDG y DU:**
https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/latest

**Dadansoddiad o farchnad lafur y DU:**
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/

**Data marchnad lafur ranbarthol y DU:**
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/nationallabourmarketsummarybyregions01

# Atodiad 2:

## Rhagolygon CDG dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf blynyddol)

| Daroganwyr | Dyddiad y rhagolwg | 2026 CDG % twf blynyddol | 2027 CDG % twf blynyddol |
|---|---|---|---|
| CEBR | Mawrth 2026 | 1.1 | 1.3 |
| Heteronomics | Mawrth 2026 | 0.6 | 0.9 |
| NIESR | Chwefror 2026 | 1.4 | 1.3 |
| ***Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas*** | | | |
| ITEM Club | Chwefror 2026 | 0.9 | 1.3 |
| Experian Economics | Mawrth 2026 | 0.8 | 1.4 |
| Oxford Economics | Chwefror 2026 | 0.9 | 1.3 |
| ***Daroganwyr y ddinas*** | | | |
| Capital Economics | Mawrth 2026 | 0.5 | 1.3 |
| JP Morgan | Mawrth 2026 | 0.9 | 1.0 |
| KPMG | Mawrth 2026 | 0.7 | 1.2 |

**Ffynhonnell:** https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2026

# Atodiad 2:

## Rhagolygon cyfradd diweithdra dethol o Arolwg o'r Llafurflu ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 Ch4

| Daroganwyr | Dyddiad y rhagolwg | Cyfradd ddiweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu 2026 Ch4 | Cyfradd ddiweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu 2027 Ch4 |
|---|---|---|---|
| CEBR | Mawrth 2026 | 5.3 | 5.1 |
| Heteronomics | Mawrth 2026 | 5.3 | 5.2 |
| NIESR | Chwefror 2026 | 5.4 | 5.2 |
| ***Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas*** | | | |
| ITEM Club | Chwefror 2026 | 4.9 | 4.7 |
| Experian Economics | Mawrth 2026 | 5.2 | 4.9 |
| Oxford Economics | Chwefror 2026 | 5.1 | 4.9 |
| ***Daroganwyr y ddinas*** | | | |
| Capital Economics | Mawrth 2026 | 5.1 | 4.9 |
| JP Morgan | Mawrth 2026 | 5.5 | 5.3 |
| KPMG | Mawrth 2026 | 5.3 | 5.2 |

**Ffynhonnell:** https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2026

# Atodiad 2:

## Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)

| Daroganwyr | Dyddiad y rhagolwg | MPD 2026 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) | MPD 2027 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) |
|---|---|---|---|
| CEBR | Mawrth 2026 | 2.0 | 2.1 |
| Heteronomics | Mawrth 2026 | 3.3 | 3.3 |
| NIESR | Chwefror 2026 | 2.2 | 2.0 |
| ***Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas*** | | | |
| ITEM Club | Chwefror 2026 | 2.3 | 2.1 |
| Experian Economics | Mawrth 2026 | 2.7 | 2.2 |
| Oxford Economics | Chwefror 2026 | 2.5 | 2.6 |
| ***Daroganwyr y ddinas*** | | | |
| Capital Economics | Mawrth 2026 | 2.6 | 1.5 |
| JP Morgan | Mawrth 2026 | 2.6 | 2.3 |
| KPMG | Mawrth 2026 | 3.1 | 1.2 |

**Ffynhonnell:** https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2026

# Atodiad 2:

## Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM)

| Daroganwyr | Dyddiad y rhagolwg | MPM 2026 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) | MPM 2027 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %) |
|---|---|---|---|
| CEBR | Mawrth 2026 | 3.0 | 3.0 |
| Beacon Economic Forecasting | Mawrth 2026 | 3.1 | 4.2 |
| NIESR | Chwefror 2026 | 3.3 | 3.5 |
| ***Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas*** | | | |
| Heteronomics | Mawrth 2026 | 4.1 | 4.2 |
| Experian Economics | Mawrth 2026 | 3.5 | 2.8 |
| Oxford Economics | Chwefror 2026 | 3.6 | 3.7 |
| ***Daroganwyr y ddinas*** | | | |
| Capital Economics | Mawrth 2026 | 3.7 | 2.7 |
| HSBC | Mawrth 2026 | 2.8 | 2.8 |
| UBS | Mawrth 2026 | 2.3 | 2.4 |

**Ffynhonnell:** https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-march-2026

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

**bancdatblygu.cymru**
**developmentbank.wales**

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.